# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio Rheoliadau Domestig) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **20 Rhagfyr 2018** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig** |

**Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio Rheoliadau Domestig) (Ymadael â'r UE) 2018**

- Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer 2010
- Rheoliadau Cyfansoddion Organig Anweddol mewn Paent, Farneisiau a Chynhyrchion Ailorffen Cerbydau 2012
- Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Nid oes gan yr OS hwn unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad nac ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Diben y diwygiadau**
Mae'r offeryn hwn yn gwneud mân ddiwygiadau technegol i'r ddeddfwriaeth bresennol a ddisgrifir uchod i sicrhau y bydd yn gweithio'n iawn ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae'r newidiadau yn yr offeryn hwn yn cynnwys cywiriadau angenrheidiol megis: diwygio croesgyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr UE; diwygio cyfeiriadau at yr UE, sefydliadau'r UE a phrosesau gweinyddol yr UE i gynnwys rhai domestig; diweddaru cyfeiriadau cyfreithiol i gyfeirio at ddeddfwriaeth ddomestig berthnasol; ac addasu gofynion adrodd y Llywodraeth fel sy'n briodol.

Mae'r OS a'r Memoranda Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau i'w gweld yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-air-quality-amendment-of-domestic-regulations-eu-exit-regulations-2018

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i

weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.